**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| P R Hood-Williams | L James | M H Jones |
| M Jones | S M Jones | J W Jones |
| M W Locke | B J Rowlands | M S Tribe |
| T M White | | |

**Aelod(au) Cabinet**
Y Cynghorydd Rob Stewart - Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Steve Hopkins | Rheolwr Twristiaeth a Marchnata |
| Geraldine Williams | Swyddog Datblygu Twristiaeth |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): D H Jenkins

---

## 49 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

## 50 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 51 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 52 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

53 **Cynigion y Gyllideb Ddrafft**

Roedd y Cyng. Rob Stewart a Ben Smith yn bresennol. Trafodwyd y materion canlynol.

- Yn gyffredinol, mae'r gyllideb yn dangos heriau ariannol yn 2024/25 ac i'r cynllun ariannol tymor canolig.
- Er bod ffocws ar gynilion, mae £80m o gyllid ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y gyllideb dros y pedair blynedd nesaf.
- Nid oes gan y Cyngor reolaeth dros ddyfarniadau cyflog awdurdodau lleol ac athrawon felly mae amcangyfrifon wedi'u cynnwys yn y gyllideb.
- Cyngor swyddogion yw nad yw'r cyfraddau benthyca presennol yn fanteisiol ac y dylid oedi unrhyw fenthyca tan ddiwedd y cynllun ariannol tymor canolig.
- Mae blynyddoedd blaenorol wedi arwain at danwariant mewn gwariant cyfalaf. Cyngor y Swyddog yw defnyddio'r tanwariant hwn yn 2024/25.
- Mae'r gyllideb yn cynnwys defnyddio dros £8m mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn rhannu i ychydig dros £1m o'r Gronfa Cyfartaliad Cyfalaf a £7m a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer uwchraddio TG mewn ysgolion. Bydd y £7m hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ysgolion yn unig a chaiff ei ddefnyddio'n llawn yn 2024/25.
- Bydd y gronfa ariannol wrth gefn yn cael ei lleihau o £5m i £3m er mwyn caniatáu i £2m ychwanegol fynd tuag at wasanaethau.
- Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref o ran cronfeydd wrth gefn, ond nid yw defnyddio arian wrth gefn yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ar gyfraddau Treth y Cyngor.
- Disgwylir cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth, fodd bynnag, os oes unrhyw enillion ychwanegol o hyn, byddent yn rhy hwyr ar gyfer gosod cyllideb 2024/25.
- Mae'n debygol y bydd ardoll y Gwasanaeth Tân dros £1m. Telir am hyn o gyllidebau'r cyngor.

54 **Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2 2023/24**

Roedd y Cyng. Rob Stewart a Ben Smith yn bresennol. Trafodwyd y materion canlynol.

- Mae'r ail chwarter yn dangos gorwariant o oddeutu £7.5m.
- Mae ymrwymiad o fewn cyfarwyddiaethau i gyflawni sefyllfa gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn.
- Mae rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u hailddosbarthu i bob pwrpas fel darpariaeth. Mae hyn yn dal i ganiatáu iddi fod ar gael yn y tymor byr at ddefnydd arian parod pe bai ei angen ar y Cyngor ond mae gwahaniaeth cyfrifyddu pwysig rhwng y ddau ddosbarthiad.
- Mae gwahanol lwybrau'n cael eu harchwilio i ddarparu cludiant ysgol mewn ffyrdd mwy cost-effeithiol.

55 **Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 2 2023/24**

Roedd Richard Rowlands yn bresennol, a thrafodwyd y canlynol.

- Aeth y swyddog ag aelodau'r Panel drwy gynllun newydd yr adroddiad.

- Canmolodd y Panel y fformat newydd gan dynnu sylw at feysydd gwella o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

56 **Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth**

Roedd Steve Hopkins yn bresennol, a thrafodwyd y canlynol.

- Cytunodd y Cabinet ar Gynllun Rheoli Cyrchfannau 2023-26 ym mis Hydref 2023.
- Canmolodd y Panel yr adroddiad ac ar y cyfan roeddent yn fodlon ar y canlyniadau.
- Mae hyder cynyddol ym maes twristiaeth fod y diwydiant yn adfer o effeithiau'r Pandemig.
- Trafododd y swyddog sawl canfyddiad a gafwyd drwy ymchwil a gynhaliwyd cyn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau, gan gynnwys arolwg ymwelwyr, arolwg busnes lleol ac astudiaeth galw am westy.
- Yn 2022 ymwelodd 4.2m o ymwelwyr ag Abertawe.
- Y blaenoriaethau strategol yw ansawdd, creu cyrchfan drwy gydol y flwyddyn, annog cynaliadwyedd a gweithio mewn partneriaeth.
- Mae deiliadaeth ystafelloedd gwestai yn Abertawe yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Dangosodd yr astudiaeth galw am westai fod angen 3 gwesty arall ar Abertawe i ateb y galw.
- Roedd ymatebion yr arolwg ymwelwyr yn dangos boddhad mawr yn gyffredinol.
- Nododd ymwelwyr eu bod yn bennaf anfodlon ar argaeledd a glanweithdra toiledau cyhoeddus, ac mai hyn yw'r peth pwysicaf i'w wella Trafodwyd arwyddion i gyfeirio pobl at doiledau cyhoeddus hefyd.
- Mae'r wefan croesobaeabertawe.com yn bodoli i hyrwyddo digwyddiadau i dwristiaid a phreswylwyr ac mae gwefan newydd hefyd yn cael ei datblygu.

57 **Cynllun Gwaith**

Nodwyd y cynllun gwaith, a chyfeiriwyd at gyfarfod y mis nesaf a fydd yn gyfarfod cyn craffu ar y gyllideb flynyddol ar 13 Chwefror cyn iddi fynd gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth ar 15 Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.14pm.

**Cadeirydd**